## TASG 2

(Craidd, sbardun 1)

Darllenwch eiriau un o'r trefnwyr eto:

"Rydyn ni wedi ceisio mynd â'r ras i rai o ardaloedd gorau Cymru, lle mae golygfeydd hardd, hanes a diwylliant diddorol. Felly, bydd y timau o dramor nid jyst yn rasio ond byddan nhw'n gweld lleoedd enwog fel cestyll - ac, os ydyn nhw'n lwcus, efallai draig!"

**Gwaith grŵp**

Beth am greu taith antur o gwmpas eich ardal chi?

1. Rhaid i chi drafod:
   - ble bydd y daith yn mynd a beth fydd yr anturiaethwyr yn ei weld ar hyd y ffordd?
   - pa mor hir fydd hi?
   - y campau gwahanol, e.e. beicio, nofio, caiacio ac ati – ble bydd rhaid gwneud y rhain?
   - pryd bydd y daith yn dechrau ac yn gorffen? Sawl diwrnod bydd hi felly?
   - ble bydd yr anturiaethwyr yn cysgu?
   - ble bydd yr anturiaethwyr yn cael bwyd ar hyd y daith?
   - faint fydd y gost ar gyfer cymryd rhan yn y ras?
   - beth fydd ei angen ar yr anturiaethwyr? (e.e. bwyd, diod, beic, pa fath o ddillad ac offer ac ati)
   - unrhyw wybodaeth arall.

2. Disgrifiwch y daith i grwpiau eraill.

3. a. Pa grŵp sydd wedi creu'r daith fwyaf diddorol? Pam?

____________________________________________________________

____________________________________________________________

____________________________________________________________

____________________________________________________________

b. Pa grŵp sydd wedi creu'r daith fwyaf heriol? Pam?

________________________________________________________________________

________________________________________________________________________

________________________________________________________________________

________________________________________________________________________

**Gwaith i unigolion:**

4. Paratowch daflen i hysbysebu'ch taith chi.

Dylech chi gynnwys:

- y wybodaeth rydych chi wedi ei thrafod uchod
- map
- lluniau